Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 25 Tachwedd 2013 am 7:00 p.m.

**PRESENNOL**: Cyng. Rosie Hughes-Moseley (**Maer – Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen Ellis, Anne Roberts, Katy Morgan Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

## 128. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Bob Costain, Sioned Foulkes a Menna Jones.

## 129. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 130. CWMNI ANRHYDEDDUS O WARCHODWYR DWR

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad gan Mr Ivor Richards, Meistr presennol y Cwmni uchod sydd wedi ei sefydlu yn Ninas Llundain. Rhoddodd y cefndir a'r hanes i'r Cwmni Lifrai hanesyddol yma i'r aelodau, rhif 102, ffurfiwyd 25 mlynedd yn ôl a chafodd Siartr Frenhinol yn 2005. Sefydlwyd Mr Richards fel Meistr ym mis Gorffennaf eleni a bydd y flwyddyn nesaf yn flwyddyn arbennig i'r Cwmni oherwydd bydd hyn yn 400fed pen-blwydd pan agorodd Hugh Myddelton ei gynllun afon newydd yn Llundain. Ar ddydd Mercher, 29ain Ionawr 2014 bydd Gwasanaeth Eglwysig arbennig yn Llundain a dymuniad Mr Richards yw dathlu'r achlysur drwy gael benthyg cwpan Hugh Myddelton. Bydd rhaid trefnu yswiriant a byddai'n hoffi gweld y gwpan ymlaen llaw. Diolchwyd iddo gan y Maer. Yn nes ymlaen yn y noson, ac i wneud y mater yn ffurfiol

***PENDERFYNODD****: yr aelodau ganiatáu benthyg cwpan Hugh Myddelton am y cyfnod ar yr amod bod yswiriant digonol yn ei le.*

## 131. CANOLFAN YMWELWYR RHUTHUN

Cynrychiolwyd y Siambr Fasnach gan Mr Ian Lewney gyflwynodd ystadegau ar y Ganolfan uchod am y cyfnod Ebrill i Fedi 2013 i'r aelodau. Derbyniodd yr aelodau arolwg o ymwelwyr i'r Ganolfan - 15% yn lleol, 14% o wledydd tramor; ymwelwyr o Ogledd Cymru yn 7% er bod 20% o Ogledd Orllewin Lloegr. Gwybodaeth am y dref ei hunan oedd angen ymwelwyr - profodd y Map o Ruthun gynhyrchwyd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn llwyddiannus iawn. Derbyniwyd amryw o geisiadau am deithiau cerdded er bod ceisiadau am lety yn eithaf isel. Yr oedd o leiaf 50% o'r ymwelwyr yn ymwelwyr diwrnod; 40% o'r ymwelwyr yn aros dros nos yn Rhuthun a'r ardal gyfagos - amryw yng Nghastell Rhuthun. Deliodd y Ganolfan gyda bron 15,000 o ymwelwyr yn ystod y cyfnod. Y sefyllfa bresennol yw bod digon o arian mewn llaw i gynnal y Ganolfan hyd ddiwedd Ionawr / Chwefror gydag arian yn cael ei godi o'r Farchnad Nadoligaidd a digwyddiadau eraill. Cymerodd Mr Lewney gwestiynau gan yr aelodau ar: lleoliad y Ganolfan Ymwelwyr yn Nantclwyd y Dre neu Garchar Rhuthun; mynediad i lyfrau ymwelwyr i edrych ar y rhain mewn mwy o fanylder; cais gwreiddiol am arian gan y Cyngor Tref ddim yn cynnwys Cynllun Busnes; heb gysylltu yn ôl â gwirfoddolwyr a hyrwyddo cynnyrch lleol. Yr oedd yr aelodau yn canmol gweithgareddau'r Ganolfan. Diolchwyd iddo gan y Maer.

## 132. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

I'w gwblhau.

## 133. ADRODDIADAU AELODAU

| | |
|---|---|
| Cyng. Stephen Beach | Sul Coffa, Contractwr parthed Cylchfan Maes Chwarae Plant. Cyfarfod Glasdir yn Awelon. |
| Cyng. James Bryan | Gŵyl Rhuthun, Dawns y Maer. |
| Cyng. Elisabeth Culshaw | Sul Coffa |
| Cyng. June Derry | Agoriad Swyddogol Canolfan Hamdden Rhuthun, Sul Coffa, Cyfarfod Glasdir yn Awelon. |
| Cyng. Ken Hawkins | Dawns y Maer, Agoriad Swyddogol Canolfan Hamdden Rhuthun, Sul Coffa, Cyfarfod Glasdir yn Awelon. |
| Cyng. Simeon Jones | Gŵyl Rhuthun, Sul Coffa. |
| Cyng. Robert Owen Ellis | Banc Bwyd x 3, Dawns y Maer, Agoriad Swyddogol Canolfan Hamdden Rhuthun, Sul Coffa, Menter Iaith, Cyfarfod Glasdir yn Awelon. |
| Cyng. Anne Roberts | Banc Bwyd x 3, Agoriad Swyddogol Canolfan Hamdden Rhuthun, Sul Coffa, Cyfarfod Glasdir yn Awelon. |
| Cyng. Katy Morgan Williams | Dawns y Maer, Arddangosfa Tan Gwyllt yn Llanfwrog, Sul Coffa, Cymdeithas Preswylwyr Glasdir, Cyfarfod Glasdir yn Awelon. |
| Cyng. Geraint Woolford | Sul Coffa. |
| Cyng. Emrys Wynne | Dawns y Maer, Cymdeithas Cynghorau Gogledd Cymru ym Mwcle, Sul Coffa, Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Efeillio Rhuthun. |

## 134. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 28 Hydref 2013.*

## 135. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## 136. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2013.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

## 137. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2013.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

## 138. IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL

***PENDERFYNWYD**: cytuno Nos Lun, 2 Rhagfyr (yn dilyn y Cyfarfod Amwynderau) fel dyddiad cyfarfod o'r Is-bwyllgor yma (aelodaeth - Cyngr. Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Katy Morgan Williams, Y Maer a'r Dirprwy Faer).*

## 139. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

### (a) CYNGOR AR BOPETH SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am Gefnogaeth Ariannol i Fiwro Rhuthun - mae £2,000.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r Cyfraniad Blynyddol o £2,000.00 i'r Mudiad yma.*

### (b) CLWB ROTARY RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref a gofynnwyd i'r aelodau ystyried:
(a) llythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gost y Fflôt Nadolig a (b) e-bost yn manylu ar gost newidiadau i'r fflôt.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £300.00 tuag at y gost o'r fflôt Nadolig, i ddod allan o 'Ddathliadau'r dref'.*

## (c) GOLEUADAU NADOLIG – DYDD SADWRN, 30 TACHWEDD

Derbyniodd yr aelodau fanylion am Gau ffyrdd / arwyddion a chais am Gymorth Ariannol tuag at y gost oddi wrth Ymlaen Rhuthun (*cyfraniadau o £300.00 yn 2011 a £180.00 yn 2012*).
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau talu am yr arwyddion o £175.00 ac i ofyn bod yr infois yn cael ei hanfon yn uniongyrchol i'r Cyngor Tref gan Gyngor Sir Ddinbych.*

## 140. CYMDEITHAS CLERCOD CYNGHORAU LLEOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried talu tanysgrifiad blynyddol Clerc y Dref o £147.00.
***PENDERFYNWYD:** talu Tanysgrifiad Blynyddol Clerc y Dref o £147.00*

## 141. CRONFA ELUSENNOL Y MAER – ABSEILIO

Derbyniodd yr aelodau fanylion am ddigwyddiad i godi arian tuag at Elusen Y Maer.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y manylion gyda Chyngr. James Bryan, Simeon Jones, Geraint Woolford a Chlerc y Dref yn gwirfoddoli.*

## 142. AMCANGYFRIFON ARIANNOL 2014 / 2015

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau swm i'w roddi o dan bennawd newydd 'Parth y Cyhoedd' yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgorau diwethaf ac i baratoi ar gyfer cyfrif Amcangyfrifon Ariannol y Flwyddyn nesaf.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau swm o £30,000.00 (deng mil ar hugain o bunnoedd) o dan bennawd cyllid newydd o 'Parth y Cyhoedd' ar gyfer Amcangyfrifon Ariannol 2014 / 2015.*

## 143. CRONFA BENODEDIG GRADDFA NAT WEST

Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod disgwyl cadarnhad o'r uchod gyda'r arian ar hyn o bryd yn parhau i gael ei gadw yn y Cyfrif Cynilo Busnes.
***PENDERFYNWYD**: dilyn y mater i fyny drwy lythyr i Nat West.*

## 144. DATHLIAD Y NADOLIG

Derbyniodd yr aelodau wahoddiad i ymuno â Chadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Gwasanaeth i'w gynnal yn y Gadeirlan, Llanelwy ar Nos Fawrth, 10fed Rhagfyr 2013 yn dechrau am 7:00 o'r gloch.

## 145. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau drefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor yma.
***PENDERFYNWYD**: cytuno Nos Lun, 6ed Ionawr 2014 am 7:00 p.m. yn Neuadd y Dref (aelodaeth - Cyngr. Elisabeth Culshaw, June Derry, Menna Jones, Geraint Woolford ynghyd a'r Maer a'r Dirprwy Faer).*

## 146. COEDEN DDERWEN YNG NGHAE DDOL

Derbyniodd yr aelodau fanylion am y goeden dderwen yma yng Nghae Dol sydd i'w dymchwel. Mae cyfarfod safle wedi ei drefnu ar gyfer Dydd Mercher yma am 10:00 o'r gloch i drafod y mater yma.

## 147. DATHLIADAU'R NADOLIG – 30 TACHWEDD 2013

Derbyniodd yr aelodau rhagor o fanylion am y Goleuadau Nadolig fydd yn cael eu troi ymlaen am 6:30 p.m. nos Sadwrn yma.

## 148. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Hydref 2013.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

## 149. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

| D.U. | B.T. | Teliffon | * | 60.30 |
|---|---|---|---|---|
| 486 | Sandra Williams | Cyfieithu | * | 90.00 |
| 487 | Cyllid y Wlad | Treth & Yswiriant Gwladol | | 177.47 |
| 488 | Rickx Disco | System sain – Sul Coffa | | 80.00 |
| 489 | Lleng Brydeinig Frenhinol | Cyfraniad | | 50.00 |
| 490 | Dafydd Williams | Sul Coffa - te / coffi ayyb | | 13.55 |
| 491 | Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog | Hurio Ystafell – cyfarfod Glasdir | | 29.50 |
| 492 | John Morris | Tynnu ymaith y gylchfan yn y Maes Chwarae. | | 200.00 |
| 493 | Catherine Lowe | Cyfieithu parthed Creiriau'r Dref. | | 21.78 |
| 494 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | Cyfraniad Blynyddol | | 2,000.00 |
| 495 | Clwb Rotary Rhuthun | Cyfraniad - newidiadau i'r fflôt. | | 300.00 |
| 496 | Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. | Tanysgrifiad Clerc y Dref | | 147.00 |

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £25.05 )

## 150. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 16 Rhagfyr 2013.